

## CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

---

### Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7 o'r gloch Nos Fawrth, 21 o Chwefror 2017

**Presennol:** Cyng. Gwilym O. Jones (Cadeirydd)  
Cyng. Gordon Owen  
Cyng. William Victor Owen  
Cyng. Beryl Salisbury  
Cyng. Einir Thomas

**Ymddiheuriadau:** Cyng. Gwynfor Lloyd Jones  
Cyng. Dyfed Williams

### **Cyflwyniad gan Mark Sobczak, Alyn Jones and Claire Duffy ar ran SP Energy Networks.**

Nodwyd bod SP Energy Networks yn buddsoddi £13m i atgyfnerthu'r isadeiledd trydanol ar draws Ynys Môn. Roedd hyn yn cynnwys cynllun i adeiladu cylched 132,000 folt newydd a gosod newydd grid newydd ar y safle presennol ar Lôn Cymyran, Caergeiliog. Y bwriad oedd cysylltu hwn i'r Grid Cenedlaethol ar bwynt i'r gogledd o'r pentref gyda llinell uwchben a chebl tanddaearol. Byddai'r llinell danddaearol yn cael ei gosod o dan y ffordd drwy Stad Treifan.

Roedd disgwyl y byddai'r buddsoddiad yn hwyluso twf a datblygiad ar draws yr ynys ac yn cynyddu gwytnwch cyflenwadau i'r 38,000 o gartrefi a busnesau sydd yma'n barod.

Rhodddwyd gwybod i'r Cyngor fod yr astudiaethau cychwynnol yn gyflawn ac eu bod wedi cysylltu gyda pherchnogion y tir. Felly roeddent yn barod i ymgynghori a chyflwyno'r llwybr arfaethedig cyn cyflwyno cais swyddogol yn ystod Gwanwyn 2017. Os bydd cymeradwyaeth i'r cynllun rhagwelwyd y byddai'r gwaith yn dechrau ym mis Medi 2017.

Daeth yn amlwg yn ystod y cyflwyniad nad oeddent wedi cysylltu'n iawn gyda'r tiffeddianwyr a'u bod yn ffafrio'r llwybr drwy Stad Treifan am nad oedd y cwmni yn disgwyl gwrthwynebiad gan y tiffeddianwyr.

Mynegodd sawl aelod bryderon difrifol am y prosiect, roedd yn debygol o amharu'n enfawr am gyfnod hir ar breswylwyr Treifan ac roedd hyn ffactor pwysig i'w ystyried. Cytunodd SP Energy Networks i gysylltu ymhellach gyda'r tiffeddianwyr.

- 3. Datganiad o ddiddordeb** - Cyng. Gwilym O. Jones a Cyng. Gordon Owen - eitem 3 Y Neuadd Bentref ac eitem 8.1 SP Energy Networks, Cyng. E Thomas - eitem 8.1 SP Energy Networks.

Llofnod.....Cadeirydd.....

**4. Cofnodion cyfarfod 17eg o Ionawr 2017**

Derbyniwyd fod y cofnodion yn gywir - (Cynnig Cyng. William Victor Owen, eilio Cyng. Beryl Salisbury.)

**5. Materion yn codi o'r cofnodion.**

1. Cae chwarae: - Cytunwyd i ofyn i Mr Frank Rowlands a allai roi paent ar y cyfarpar chwarae ac i G. L. Jones Playgrounds Ltd am ddyfynbris ar gyfer gwneud y gwaith arwynebau sydd angen yno.

3. Llwybrau: - 'Roedd y gwaith o dorri llwybr troed 8 ac o gwmpas y bont ar lwybr troed 25 heb ei wneud eto.

3. Neuadd y Pentref: - Adroddwyd bod cyfreithwyr wedi ei benodi i ymdrin â'r materion ar ran Pwyllgor Rheoli Neuadd Bentref.

4. Arolwg Etholiadol: - Mae'n rhaid i nifer yr etholaethau yng Nghymru ostwng o 40 i 29. Ystyriwyd fod Ynys Môn yn rhy fach i sefyll ei hun a'r cynnig yw cynnwys rhannau o Arfon yn yr etholaeth newydd. Fe gyhoeddir yr ymatebion i'r cynigion a gafwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad yn fuan.

5. Pwyllgor Safonau - chofrestru diddordeb – Cadarnhawyd y bydd cofrestr gyfredol yn cael ei rhoi ar y wefan.

6. Etholiadau Cyngorau Cymunedau a Tref 2017 - cyhoeddwyd y bydd pecynnau yn cael eu dosbarthu drwy'r clerck ar ôl yr 2ail o Fawrth.

7. Unrhyw fater arall yn codi o'r cofnodion: - dim

**6. Deddf Gynllunio Gwlad a Thref**

Ceisiadau Cynllunio

**32C123D Bryn Ednyfed, Caergeiliog** - Cais llawn ar gyfer defnyddio'r safle ar gyfer dim mwy na 20 o garafannau ar unrhyw adeg drwy gydol y flwyddyn ynghyd â cynnudd o'r storfa dros y gaeaf i ddim mwy na 10 carafan – dim gwrthwynebiad.

**32C200 - 1 Bryn Trewan, Caergeiliog** - Cais llawn ar gyfer addasu – dim gwrthwynebiad

Llofnod.....Cadeirydd.....

## CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

### 7. Gohebiaeth Cyngor Sir Ynys Môn

1. Blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith - nodwyd y diweddariad.
2. Cynllun Cymunedol ar gyfer Argyfwng - cytunwyd y byddai'r Cyngor Cymuned yn gweithio gyda'r Cyngor Sir a'r Llu Awyr mewn achos o argyfwng.

### 8. Materion Ariannol

**Yn y banc ar 21.2.2017 Cyfrif Cyfredol £9257.33, Cyfrif Cadw £3,921.11**

#### Taliadau i'w gwneud

Cyflog y clercc (lonawr.)	£178.14	HMRC (TWE)	£44.54
Un Llais Cymru	£209.00	Swyddfa Archwilio Cymru	£323.55
Cyfieithu	£70.00		

**Cytunwyd i dalu'r rhain (Cynnig Cyng. Beryl Salisbury, eilio Cyng. Gordon Owen.)**

9. **Dogfennau Statudol:** - Byddai'r clercc yn cyflwyno'r rhain yn y cyfarfod nesaf.

### 10. Gohebiaeth Eraill:-

1. SP Energy Networks - Anglesey Reinforcement Project - gweler uchod.
2. Diwygio llywodraethu ysgolion: fframwaith rheoleiddio - Cadarnhaodd Cyng. Beryl Salisbury bod llywodraethwyr yr ysgol yn ymwybodol o'r fframwaith.
3. Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau - ymgynghoriad i Bil Undebau Llafur (Cymru) - nodwyd.
4. Bwletin Un Llais Cymru Ionawr 2017 - Roedd hwn yn cynnwys eitemau ar Reolaeth Ariannol a Llywodraethu mewn Cyngorau Cymuned 2015-2016, rhaglen Archwilio a themâu ar gyfer 2016-17 i 2020-21, ymgynghoriadau diweddar ac yn y blaen.

Llofnod.....Cadeirydd.....

5. Newyddlen Swyddfa Archwilio Cymru – nodwyd.
6. Datganiad i'r wasg: Mae angen i gynghorau cymunedol wella rheolaeth ariannol a llywodraethu.
7. Papur Gwyn 'Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddiad' – nodwyd.
8. Adroddiad ar weithdy ar waredu gwastraff ymbelydrol - cofnodion cyfarfod i randdeiliaid a gynhaliwyd yng Nghaerdydd.
9. Cynllun ECO - cynlluniau arbed ynni ar gyfer trigolion.
10. Yr Ombwdsmon - (Casebook - Issue 27) - nid oedd unrhyw gyfeiriad at Gynghorau Ynys Môn y tro hwn.
11. Cylchlythyr RHUN AP IORWERTH (Chwefror 2016) – nodwyd.

**11. Unrhyw fater arall:-**

Adroddwyd bod y lloches bus wrth Gyffordd 4 o'r A55 wedi cael ei difrodi eto, gofynnwyd i'r clerwr gael amcanbris gan Mr William Evans (Pentre Berw) ar gyfer gwaith atgyweirio ac atgyfnerthu.

**12. Cyfarfod nesaf 21ain o Fawrth 2017.**

Llofnod.....Cadeirydd.....